

Cŵn yn Sir Gaerfyrddin



Os hoffwch gael y wybodaeth hon mewn print
bras, mewn Braille neu dâp sain ffoniwch
01267 234567



**recycle
ailgylchu**

Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

Cŵn yn baeddu a rheoli cŵn mewn mannau cyhoeddus

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n croesawu cŵn ac mae yma amrywiaeth o lwybrau cerdded a milltiroedd o draethau tywodlyd euraidd i chi a'ch ci gael eu mwynhau.

Mae'r rhan fwyaf o berchenogion cŵn yn ymddwyn yn gyfrifol drwy godi baw eu hanifeiliaid anwes a'u cadw o dan reolaeth mewn mannau cyhoeddus

Fodd bynnag, rydym yn cael cwynion am gŵn yn baeddu ac am ymddygiad niwsans gan gŵn nad ydynt dan reolaeth briodol.

Rydym wedi cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni o ran mynd i'r afael â pherchenogion cŵn anghyfrifol a digwyddiadau sy'n ymwneud â chŵn. Mae rhai'n disodli pwerau presennol ac mae rhai eraill yn newydd.



Mae'r Gorchymyn yn cynnwys:

1. Codi baw eich ci

Mae'n rhaid i chi godi baw eich ci ym mhob man cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

Cofiwch waredu eich baw ci yn ofalus. Os ydych yn mynd am dro, defnyddiwch y nifer o finiau sbwriel cyhoeddus sydd ar gael ym mhob rhan o'r sir.

Os yw'n bosibl, ceisiwch annog eich ci i faeddu yn eich gardd (gall gwneud hyn pan yw'n ifanc iawn helpu). Gallwch brynu blychau baw a gynnlluniwyd yn arbennig ar gyfer cŵn ('doggy loos'). Mae hwn yn gweithio'n union fel bin. Mae'n cael ei gladdu'n rhannol yn yr ardd – ond ni fydd angen ichi ei wagio byth, gan y bydd natur yn gofalu bod y baw'n dadelfennu ac yn mynd i'r pridd heb wneud unrhyw niwed. Mae'r blychau ar gyfer baw cŵn yn cael eu gwerthu mewn nifer o siopau anifeiliaid anwes lleol a gellir hefyd eu harchebu dros y ffôn neu ar-lein gan gyflenwyr sy'n gwerthu nwyddau ar gyfer anifeiliaid anwes.

Os oes yn rhaid i chi gael gwared ar faw ci drwy ei roi yn eich bag du, sicrhewch ei fod wedi ei lapio'n dda a'i fod yn gymysg â mathau eraill o wastraff.

Codi, Bagio a Binio'r Baw!

- ✦ Cadwch gyflenwad o fagiâu plastig wrth ymyl tennyn eich ci (mae bagiau plastig o'r archfarchnad yn rhawiau baw rhagorol) fel na fyddwch yn eu hanghofio pan ewch am dro. Rhowch eich llaw yn y bag plastig a chodwch faw eich ci.
- ✦ Yn ofalus, trowch y bag plastig y tu mewn allan a bydd eich baw ci yn y bag.
- ✦ I waredu eich bag rhowch ef mewn bin sbwriel cyhoeddus.



2. Cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd

Mae'n rhaid i chi roi eich ci ar dennyn sydd heb fod yn fwy na dau fetr o hyd pan roddir cyfarwyddyd i chi wneud hynny gan swyddog awdurdodedig. Byddwch chi ond yn cael cyfarwyddyd i roi eich ci ar dennyn os ystyrir bod eich ci yn achosi niwsans i bobl eraill neu anifeiliaid eraill.



3. Gwahardd cŵn

Mae cŵn wedi'u gwahardd o bob man chwarae caeedig, awyr agored yn Sir Gaerfyrddin. Bydd arwyddion yn cael eu gosod er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd na chaniateir cŵn. Nid yw'n berthnasol i safleoedd megis cyrtiau tennis, parciau sglefrio, parciau aml-gamp, cyfleusterau chwaraeon ac ati.



Os ydych yn methu â chydymffurfio a'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus, rydych yn cyflawni trosedd a gallwch gael hysbysiad cosb benodedig o £100 ond os telir y ddirwy o fewn 10 diwrnod, caiff y swm ei leihau i £50.



£1,000 yw'r ddirwy fwyaf os cewch eich erlyn yn y llys ynadon.

Is-ddeddfau Presennol

Mae'r is-ddeddfau presennol sy'n gwahardd cŵn yn ôl y tymor (o 1 Mai hyd at 30 Medi) o draeth **Cefn Sidan a Llansteffan**, a'r is-ddeddf sy'n mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn bob amser ar **Y Grŵn yn Llansteffan**, yn dal mewn grym.



Rhoi Gwybod

I roi gwybod am faw cŵn ac unrhyw achos arall o gŵn yn creu niwsans, ewch i **lleol-i.sirgar.llyw.cymru** a chliciwch ar 'Rhoi Gwybod' neu ffoniwch **01267 234567**. Cofiwch gynnwys yr amser, y dyddiad a'r lleoliad, disgrifiad o'r ci a'r un oedd yn gyfrifol am y ci.

Os yw'r broblem yn digwydd ar adegau penodol, gellir cynnal patrolau pwrpasol a gellir dirwyo'r rhai sy'n troseddu. Bydd yr holl wybodaeth a roddir yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Yn ogystal gellir rhoi gwybod am gŵn strae a chŵn sydd ar goll dros y ffôn neu ar-lein.

Cwestiynau Cyffredin

Pam glanhau ar ôl eich ci?

Yn ogystal â'r arogl annymunol a'r llanast a achosir pan rydych chi'n cael baw ci ar olwyn pram, cadair olwyn, esgid neu ddillad, mae yna risg i iechyd yn gysylltiedig â baw cŵn. Mae *Toxocara canis* yn llyngyren sy'n byw ym mherfedd cŵn. Caiff wyau eu pasio gyda'r baw ci, a gallant orosi mewn pridd am hyd at 3 blynedd. Mae'r wyau'n deor i gynhyrchu larfâu a fydd, o'u hamlyncu, yn mynd i lif y gwaed. Mae gwaed dynol yn amgylchedd estron, a bydd y larfâu'n aros ynghwsg. Fodd bynnag, os yw larfa'n mynd yn sownd yn y capilarïau gwaed bychain sydd y tu ôl i'r llygad, gall beri i rywun golli ei olwg yn rhannol. Er bod hyn yn anghyffredin iawn, ac amddiffynfa naturiol y corff fel arfer yn dinistrio'r larfâu, bydd glanhau ar ôl eich ci yn cael gwared â'r risg.



Ond, ni welais i fy nghi yn baeddu?

Pan fyddwch chi'n mynd â'ch ci am dro, eich cyfrifoldeb chi fydd cadw llygad arno drwy'r amser a sicrhau eich bod yn glanhau ar ei ôl. Ni fydd peidio â bod yn ymwybodol bod y ci wedi baeddu (naill ai oherwydd nad oeddech yn y cyffiniau neu am reswm arall), neu beidio â meddu ar ffordd addas o symud y baw, yn esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio â'r gorchymyn.

Doedd dim bin wrth law?

Dydy hynny ddim yn esgus. Os nad oes bin wrth law, dylech gario bag y baw gyda chi tan i chi ddod o hyd i un neu fynd ag ef gartref gyda chi i'w waredu. Ni ddylech adael bagiau o faw ci ar hyd y lle, hyd yn oed os ydych chi'n bwriadu eu casglu yn hwyrach. Os ydych chi'n gwneud hynny, byddwch yn cyflawni trosedd o dan adran 87 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (am sbwriela). Bydd hi'n haws cario'r baw ci os caiff ei roi mewn cynhwysydd neu fag sydd wedi'i ddiarogli.



A oes unrhyw eithriadau o ran glanhau ar ôl eich ci ar gyfer pobl sydd ag anableddau?

Oes. Nid yw rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i unigolion sydd -

- (a) wedi eu cofrestru'n rhannol ddall neu'n ddall, ar gofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu
- (b) wedi eu cofrestru fel rhywun sydd â "nam ar y golwg", "nam difrifol ar y golwg" neu "nam ar y golwg neu'r clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd bob dydd", ar gofrestr a luniwyd dan adran 18 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; neu
- (c) ag anabledd sy'n effeithio ar eu symudedd, medrusrwydd corfforol, cydsymud corfforol, neu eu gallu i godi, cario, neu fel arall symud gwrthrychau bob dydd, sy'n golygu na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt symud y baw; neu
- (ch) ag anabledd arall, sy'n golygu na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt symud y baw.



Pryd y gellir gofyn i mi roi fy nghi ar dennyn?

Gellir gofyn i rywun roi ci ar dennyn dim ond pan fydd swyddog awdurdodedig y Cyngor o'r farn fod rhwystr o'r fath yn rhesymol angenrheidiol i arbed niwsans, neu i atal ymddygiad gan y ci sy'n debygol o achosi annifyrrwch neu aflonyddwch i rywun arall, neu boeni neu aflonyddu ar unrhyw anifail neu aderyn.

Pwy all roi cyfarwyddyd i fynnu bod ci yn cael ei roi ar dennyn?

Gall y cyfarwyddyd gael ei roi gan swyddog awdurdodedig y Cyngor. Mae i hyn ystyr eang, ac mae'n golygu unrhyw un sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor i roi cyfarwyddyd dan y Gorchymyn. Gall hyn gynnwys unigolyn nad yw'n cael ei gyflogi gan y Cyngor, er enghraifft gweithiwr i gontractwr neu asiantaeth bartner.

A oes hyd penodol gofynnol ar gyfer y tennyn y dylid ei roi ar gi?

Oes, os cewch gyfarwyddyd i roi eich ci ar dennyn mae'n rhaid i chi ddefnyddio tennyn sydd heb fod yn hirach na ddau fetr.

A allaf i ddefnyddio tennyn estynadwy?

Gallwch. Mae dal modd i chi ddefnyddio tennyn estynadwy ond nid oes hawl gennych ei ymestyn yn fwy na dau fetr os cewch gyfarwyddyd i roi eich ci ar dennyn o ddim fwy na dau fetr o hyd.

Beth yw man chwarae i blant?

Ystyr man chwarae i blant yw man sydd wedi'i neilltuo er mwyn i blant chwarae ynddo, ac sy'n cynnwys offer chwarae plant fel llithren, siglen, ffrâm ddringo neu gyfarpar chwarae arall tebyg. Ni fydd y gorchymyn hwn yn berthnasol i safleoedd megis cyrtiau tennis, parciau sglefrio, parciau aml-gamp, cyfleusterau chwaraeon ac ati.



Ydy'r gorchymyn yn berthnasol i bob man chwarae i blant?

Mae'r gorchymyn dim ond yn berthnasol i fannau chwarae awyr agored i blant sy'n gyfan gwbl gaeedig ar bob ochr a hynny drwy ffensys, gattiau, waliau neu strwythurau eraill sy'n nodi ffin y man chwarae. Os oes ffens o amgylch man chwarae i blant yn eich parc lleol, sy'n ei gwahanu oddi wrth weddill y parc, ni chaniateir cŵn yn y man chwarae sydd y tu mewn i'r ffens. Ni fydd hyn yn eich atal rhag mynd â'r cŵn i weddill y parc.

Lle mae man chwarae sydd heb ei amgáu mewn parc mwy o faint, ni fydd y gorchymyn gwahardd yn berthnasol iddo.

Sut y byddaf yn gwybod os yw cŵn wedi'u gwahardd?

Bydd arwyddion wedi'u gosod ym mhob man chwarae lle caiff y gorchymyn ei orfodi. Ni fyddwn yn gorfodi'r gorchymyn mewn mannau chwarae lle nad oes arwyddion.



A oes unrhyw eithriadau ar gyfer pobl sydd ag anableddau?

Oes. Ni fydd y gwaharddiad ar gŵn yn berthnasol i gŵn cymorth a ddarperir gan elusen gofrestredig.

A yw'r gorchymyn yn berthnasol i gŵn gwaith?

Ni fydd y gorchymyn yn berthnasol i weithgareddau arferol cŵn gwaith, tra bo'r ci yn gweithio. Felly, ni fyddwn yn erlyn os byddwn yn fodlon bod **y ci yn gweithio** ar yr adeg y cafodd y Gorchymyn ei dorri.

Er enghraifft, ni fyddwn yn erlyn unrhyw dramgwyddau a gyflawnir gan:

- ❧ Cŵn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith chwilio ac achub brys.
- ❧ Cŵn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith gorfodi'r gyfraith.
- ❧ Cŵn sy'n cael eu defnyddio gan Luoedd Arfog Ei Mawrhydi.
- ❧ Cŵn sy'n cael eu defnyddio i gorlannu neu yrru gwartheg neu ddefaid.
- ❧ Cŵn sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon i ddal neu ddifa fermin.
- ❧ Cŵn neu gŵn hela sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon ar gyfer hela.



Beth fydd yn digwydd os ydw i'n methu â chydymffurfio â'r gorchymyn?

Os yw'r sawl sy'n gyfrifol am gi yn methu cydymffurfio â gofynion y gorchymyn, byddant yn cyflawni trosedd oni bai:-

- bod ganddynt ganiatâd y perchennog, y preswylwr neu'r sawl sy'n gyfrifol am y tir, i beidio â chydymffurfio â'r gorchymyn;
- bod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio; neu
- bod un o eithriadau eraill y gorchymyn yn berthnasol iddynt, fel yr eithriadau ar gyfer pobl anabl, cŵn cymorth a chŵn gwaith.

Beth fydd y gosb am dorri'r gorchymyn?

Gallwch gael hysbysiad cosb benodedig o £100 sy'n rhaid ei dalu cyn pen 14 diwrnod ond os telir y ddirwy cyn pen 10 diwrnod, caiff y swm ei leihau i £50. Yn ogystal gallwch gael eich erlyn yn y llys ynadon a chael dirwy o hyd at £1,000.

A oes gan y Cyngor opsiynau/bwerau eraill ar gyfer delio â materion rheolaeth ar gŵn?

Gall y Cyngor hefyd ddefnyddio Hysbysiadau Gwarchod Cymuned i ddelio â Materion Rheolaeth ar Gŵn. Mae Hysbysiad Gwarchod Cymuned yn hysbysiad cyfreithiol sy'n gosod amodau ar ymddygiad rhywun sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Bwriad y rhain yw delio â phroblemau neu niwsans parhaus sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned, trwy dargedu'r sawl sy'n gyfrifol.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC), ewch i www.sirgar.llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch teithiau cerdded, atyniadau a llety sy'n croesawu cŵn, ewch i: www.darganfodsirgar.com